Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

National Assembly for Wales
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Y Gwir Anrhydeddus Carwyn Jones AC
Prif Weinidog Cymru

13 Tachwedd 2018

Annwyl Carwyn

Offerynnau Statudol Cyfansawdd a Chyd-Offerynnau Statudol

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn perthynas â mater a godwyd gennych gyntaf gyda Phwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Pedwerydd Cynulliad (Pwyllgor y Pedwerydd Cynulliad), sef gwneud offerynnau statudol cyfansawdd a chyd-offerynnau statudol a gaiff eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Dau Dŷ'r Senedd.

Yn eich llythyr ar 1 Tachwedd 2011 at Gadeirydd Pwyllgor y Pedwerydd Cynulliad, gwnaethoch ddweud na fydd Senedd y DU yn craffu ar offerynnau statudol cyffredinol mewn ieithoedd heblaw Saesneg. Defnyddiwyd y ddadl hon mewn ymateb i lawer o'n hadroddiadau dilynol, yn fwyaf diweddar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig (atodaf y llythyr).

Fel y gwyddoch, rydym wedi parhau i adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol, yn unol â'r Rheolau Sefydlog, pan na chaiff offerynnau statudol cyfansawdd neu gyd-offerynnau statudol eu gosod yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ym mis Ionawr, ysgrifennais at Mr Charles Walker AS, Cadeirydd Pwyllgor Gweithdrefn Tŷ'r Cyffredin i geisio eglurhad ynghylch a oes unrhyw rwystrau i offerynnau statudol cyfansawdd neu gyd-offerynnau statudol dwyieithog gael eu gosod yn Nhŷ'r Cyffredin.

Wrth wneud hynny, tynnais sylw at y ffaith ein bod yn ymwybodol o offerynnau statudol cyfansawdd a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a Senedd y DU yn Saesneg yn unig ond a oedd yn cynnwys rhywfaint o destun Cymraeg, er enghraifft, Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (OS 2017 Rhif 1012). Tynnais sylw hefyd at Reoliadau Cymwysterau Ewropeaidd (Proffesiynau Iechyd a Gofal Cymdeithasol) 2016 (OS 2016 Rhif 1030), a wnaed gan Lywodraeth y DU sy'n defnyddio pwerau Harri'r VIII i

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

ddiwygio Deddf dwyieithog y Cynulliad sydd, o ganlyniad, yn cynnwys nifer o dudalennau o destun Cymraeg.

Ar 25 Hydref cefais ateb gan Mr Walker, lle mae'n nodi:

> "House of Commons officials have considered the matter in detail and advise me that there is no bar in the standing orders, resolutions or practice of the House to prohibit the laying of general statutory instruments before the House of Commons in a bilingual form."

Mae Mr Walker yn awgrymu mai cyfrifoldeb yr adran ddrafftio, yn y lle cyntaf, fyddai gwarantu cywirdeb unrhyw ddrafftio mewn iaith heblaw am Saesneg sydd i gael effaith statudol.

Byddwn yn ddiolchgar am eich sylwadau a'ch barn am oblygiadau hyn ar gyfer paratoi cyd-offerynnau statudol ac offerynnau statudol cyfansawdd yn y dyfodol erbyn 28 Tachwedd 2018.

Atodaf fy llythyr at Mr Walker a'i ateb.

Mae'r llythyr hwn yn cael ei gopïo i Jeremy Miles AC, Cwnsler Cyffredinol Cymru.

Yn gywir

Mick Antoniw
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu'n Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Amgaeëdig - Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig, 16 Hydref 2018; Llythyr at Gadeirydd Pwyllgor Gweithdrefn Tŷ'r Cyffredin, 15 Ionawr 2018; Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Gweithdrefn Tŷ'r Cyffredin, 25 Hydref 2018

Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniw AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

SeneddCLA@assembly.wales

16 Hydref 2018

Annwyl Mick

Diolch am eich llythyr dyddiedig 8 Hydref ynghylch y Rheoliadau Bwyd a Materion Gwledig (Dirymiadau Amrywiol). Rwy'n ymddiheuro na chafodd datganiad ei gynnwys o fewn y Memorandwm Esboniadol ynghylch pam na chafodd yr Offeryn Statudol ei wneud yn ddwyieithog. Fel a nodwyd gennych, maen'n arferol i Lywodraeth Cymru gynnwys yr wybodaeth hon yn y Memorandwm Esboniadol; camgymeriad anfwriadol oedd hyn y tro hwn. Byddaf yn sicrhau bod swyddogion yn ymwybodol bod y Pwyllgor yn disgwyl gweld yr wybodaeth hon yn y Memorandwm Esboniadol.

Rheoliadau cyfansawdd oedd y rhain; a chawsant eu drafftio gan Lywodraeth y DU. Nid yw offerynau statudol cyfansawdd yn cael eu gwneud yn ddwyieithog, gan na wnaiff y Senedd ystyried offerynau statudol sy'n cael eu drafftio mewn unrhyw iaith ar wahân i Saesneg. Nid oedd felly yn cael ei ystyried yn rhesymol nac yn ymarferol i ddarparu'r offeryn hwn yn y Gymraeg.

Yn gywir

Lesley

Lesley Griffiths AC/AM
Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Energy, Planning and Rural Affairs

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

National Assembly for Wales
Constitutional and Legislative Affairs Committee

Charles Walker AS
Cadeirydd y Pwyllgor Gweithdrefnau, Tŷ'r Cyffredin

15 Ionawr 2018

Annwyl Charles,

Offerynnau Statudol Cyfunol ac ar y Cyd

Rydym yn aml fel rhan o'n rôl ffurfiol yn craffu ar offerynnau statudol cyfansawdd ac ar y cyd sydd wedi'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, yn ogystal â Thŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi.

Bydd offerynnau statudol o'r fath yn effeithio ar gymunedau ledled Cymru a gallant ymwneud â meysydd pwysig megis yr amgylchedd, iechyd, gofal cymdeithasol a chyflenwad dŵr a gorfodi traffig ar y ffyrdd.

O ran pob offeryn statudol a osodir gerbron y Cynulliad Cenedlaethol, mae gofynion ein Rheolau Sefydlog yn ei gwneud yn ofynnol i ni roi gwybod os na chaiff offerynnau o'r fath eu gosod yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae Gweinidogion Cymru bob amser yn gosod offerynnau cyfansawdd ac ar y cyd yn Saesneg yn unig, ac felly rydym yn adrodd i'r Cynulliad Cenedlaethol ar y sail honno.

Mewn llythyr i'r pwyllgor a oedd yn rhagflaenydd i ni ym mis Tachwedd 2011, dywedodd y Prif Weinidog fod offerynnau cyfansawdd yn cael eu gosod yn Saesneg yn unig gan na fydd Senedd y DU yn craffu ar offerynnau statudol cyffredinol mewn ieithoedd heblaw'r Saesneg.

Mae enghreifftiau diweddar o offerynnau statudol cyfansawdd yr ydym wedi craffu arnynt ac nad ydynt yn cael eu gwneud yn ddwyieithog, yn cynnwys:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddMCD@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddMCD
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCLA@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCLA
0300 200 6565

- The NHS Business Services Authority (Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG) (Establishment and Constitution (Amendment) gorchymyn 2017 (SI 2017 No. 959)

  Dywedodd y Memorandwm Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â'r Gorchymyn, "fel Gorchymyn Cyfansawdd, ni fydd yr Offeryn yn ddwyieithog ac mae'r Prif Weinidog wedi cadarnhau'r sefyllfa hon yn flaenorol i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol."

- Rheoliadau Tynnu Dŵr (Darpariaethau Trosiannol) 2017 (OS 2017 Rhif. 1047)

  Nododd y Memoranda Esboniadol a oedd yn cyd-fynd â'r offeryn statudol hwn, gan ei fod yn berthnasol i Gymru a Lloegr, ac yn destun cymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol a'r Senedd, ni ystyrir felly ei fod yn rhesymol ymarferol iddo gael ei wneud yn ddwyieithog.

Rydym hefyd yn ymwybodol o offerynnau statudol cyfansawdd a osodwyd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol a Senedd y DU yn Saesneg yn unig ond sydd, serch hynny, yn cynnwys rhywfaint o destun Cymraeg. Er enghraifft, Rheoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 (OS 2017 1012) a'r Rheoliadau Trwyddedu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) (Diwygio) 2018 (heb eu gwneud eto).

Yn ogystal, rydym wedi dod yn ymwybodol o offeryn statudol - European Qualifications (Health and Social Care Professions) Regulations 2016 (SI 2016 No. 1030) a wnaed gan Lywodraeth y DU sy'n defnyddio pwerau Harri VIII i ddiwygio Deddf ddwyieithog y Cynulliad ac o ganlyniad mae llawer o dudalennau o destun Cymraeg.

Mae rhai o'r offerynnau hyn felly'n enghreifftiau o Senedd y DU yn craffu ar offerynnau statudol sy'n cynnwys yr iaith Gymraeg.

O dan yr amgylchiadau, byddwn yn ddiolchgar pe gallech gadarnhau a oes unrhyw rwystrau i offerynnau statudol dwyieithog cyfansawdd neu ar y cyd yn cael eu gosod yn Nhŷ'r Cyffredin.

Mae hyn wrth gwrs yn bwysig yng nghyd-destun y DU yn ymadael â'r UE a chraffu ar is-ddeddfwriaeth a wneir gan Weinidogion y DU sy'n codi o'r Bil UE (Ymadael), boed yn gweithredu'n annibynnol mewn meysydd datganoledig o dan bwerau Cymal 7 neu ar y cyd â Gweinidogion Cymru mewn meysydd datganoledig o dan bwerau Atodlen 2.

Yr wyf yn anfon llythyrau tebyg at Gadeiryddion y Pwyllgor Offerynnau Statudol (Tŷ'r Cyffredin), Pwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth (Tŷ'r Arglwyddi) a'r Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych yn fuan.

Yn gywir

Mick Antoniw
Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.
We welcome correspondence in Welsh or English.

Procedure Committee
Journal Office, House of Commons London SW1A 0AA
Tel 020 7219 3351/3319 Fax 020 7219 2269 Email proccom@parliament.uk Website www.parliament.uk

From Charles Walker OBE MP, Chair of the Committee

Mick Antoniw AM
Chair, Constitutional and Legislative Affairs Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff CF99 1NA

25th October 2018

Composite and Joint Statutory Instruments

Thank you for your letter of 15 January. I must first of all apologise for the long time it has taken to reply to you.

I am not party to the advice which formed the basis of the then First Minister's assertion to your predecessor Committee to the effect that the UK Parliament "will not scrutinise general statutory instruments in languages other than English.". I understand that the Welsh Government maintains this position and has recently reasserted it.

House of Commons officials have considered the matter in detail and advise me that there is no bar in the standing orders, resolutions or practice of the House to prohibit the laying of general statutory instruments before the House of Commons in a bilingual form. Where there is a statutory requirement to lay material before the House in both languages, or where the Welsh is required in part of the material, it seems odd to assert, as the Welsh Government seems to, that the House of Commons will not scrutinise such material: the principal purpose of requiring such material to be laid is surely to allow it to be examined by parliamentarians as well as to make it available to the general public.

It would in the first instance be the responsibility of the drafting Department to vouch for the accuracy of any drafting in a language other than English which is to have statutory effect.

I cannot of course speak for the current practices of committees of this House which undertake scrutiny of delegated legislation: the degree to which such instruments are examined in detail will depend on the composition of the committees and their staff. You will no doubt be aware of the case where the Joint Committee on Statutory Instruments reported a defect in the Registration of Marriages (Amendment) Regulations 1997 on the grounds of material discrepancies between the English and Welsh forms of the Regulations: the discrepancy was discovered as a result of a close reading of both texts by a Welsh-speaking member of the Committee.

Should the Welsh Government require clarification as to the practices of the House of Commons regarding the laying of papers in languages other than English, and of committees in scrutinising bilingual instruments, I am sure that the officials of the House of Commons Service would be happy to assist.

Yours



Charles Walker OBE MP